

Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? [Edrychwch arno yn eich porwr.](#)

bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 244 (Cymru) – 9 Gorffennaf 2019

Etholiad Senedd Ewrop: nodyn atgoffa i gasglu adborth a data ar ôl yr etholiad

Diolch i'r rhai sydd wedi cyflwyno adborth a data sy'n ymwneud ag etholiad Senedd Ewrop.

Er bod y dyddiad cau ar gyfer ymatebion bellach wedi mynd heibio, rydym yn aros am nifer o ffurflenni data o hyd. Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, dychwelwch y [ffurflen hon](#) i research@electoralcommission.org.uk cyn gynted â phosibl.

Mae'r data hyn – a'ch adborth – yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o'n helpu i sicrhau y gallwn gyflawni ein dyletswydd i lunio adroddiadau ar y broses o weinyddu'r etholiad yn briodol.

Diwygio'r broses ganfasio: Arolwg Swyddfa'r Cabinet

Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet ei hail [gylchlythyr am ddiwygio'r broses ganfasio](#) a oedd yn cynnwys dolennau i'w [harolwg pwynt gwirio cyntaf](#). Nod yr arolwg cyntaf hwn yw helpu Swyddfa'r Cabinet i ddeall pa mor hyderus yw Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau mewn perthynas â chwblhau elfennau cynnal profion data y broses ganfasio ddiwygiedig. Er mwyn eich helpu i gwblhau'r arolwg, mae Swyddfa'r Cabinet wedi llunio [fersiwn PDF](#) o'r cwestiynau; gallwch hefyd wneud cais am fersiwn Word drwy gysylltu â Swyddfa'r Cabinet yn y cyfeiriad e-bost isod.

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o dri arolwg pwynt gwirio y bydd Swyddfa'r Cabinet yn eu cyflwyno rhwng nawr a mis Gorffennaf 2020. Mae pob arolwg wedi'i gynllunio i adolygu'r cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r gwaith o ddiwygio'r broses ganfasio, a bydd y wybodaeth rydych yn ei darparu hefyd yn helpu i lywio'r ffordd y mae Swyddfa'r Cabinet yn datblygu ei chynlluniau hyfforddi er mwyn cefnogi'r broses o roi'r diwygiadau ar waith.

Os nad ydych wedi cwblhau'r arolwg eto, mae Swyddfa'r Cabinet

Y
Comisiwn
Etholiadol

Cynnwys

Etholiad Senedd Ewrop: nodyn atgoffa i gasglu adborth a data ar ôl yr etholiad

Nodyn i'ch atgoffa am ein cais am adborth a data sy'n ymwneud ag etholiad Senedd Ewrop.

Diwygio'r broses ganfasio: Arolwg Swyddfa'r Cabinet

Gwybodaeth am arolwg a chylchlythyr ar ddiwygio'r broses ganfasio a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet a dolenni iddynt.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd, ac maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol](#).

Cofiwch [roi gwybod](#) i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y

wedi gofyn i chi wneud hynny erbyn dydd Llun 15 Gorffennaf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r cylchlythyr neu'r arolwg, cysylltwch â canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk.

.....
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019

Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswilt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice>)

Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddatdanysgrifio](#) ar unrhyw adeg.